



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Croeso i GwE 2015

Cynhadledd Genedlaethol

Tuag at Ragoriaeth



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Huw Foster Evans

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Managing Director GwE



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Yr Athro Graham Donaldson



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dyfodol Llwyddiannus – Adroddiad ar y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

Yr Athro Graham Donaldson CB

Cylch Gwaith yr Adolygiad


- › Sylfaenol
- › Annibynnol
- › 3-16+

Casglu tystiolaeth


Beth sydd ei angen ar Gymru a beth y mae'n dymuno i'w hysgolion ei gyflawni?

Beth y gallwn ei ddysgu gan wledydd eraill?

- Ymwelwyd â thua 60 o ysgolion a lleoliadau eraill.
- Gwaith ymgysylltu ar raddfa eang.
- Derbyniwyd dros 700 o ymatebion i'r cais am dystiolaeth.
- Profiad gwledydd eraill.
- Ymchwil ac arferion da.



Y ddadl o blaid newid




- “Mynegwyd y farn dro ar ôl tro fod y cwricwlwm wedi mynd yn anhylaw, yn orlawn ac yn ddigyswllt, a’i fod yn cyfyngu ar gyfleoedd i gymhwyso’r hyn a ddysgwyd yn fwy cyfannol mewn sefyllfaoedd ‘bywyd go iawn’, neu i wneud defnydd creadigol o’r hyn a ddysgwyd i drafod materion sy’n croesi ffiniau pwnc.”
- “...nid yw’r cwricwlwm cenedlaethol a’r trefniadau asesu presennol yn cwrdd bellach ag anghenion plant a phobl ifanc Cymru. Mae’r ddadl o blaid newid sylfaenol yn un rymus.”
- Yr angen i greu cwricwlwm ar gyfer yr 21ain Ganrif a thu hwnt sy’n edrych i’r dyfodol

Sail ein cwricwlwm presennol yw Deddf Addysg 1988 – pan oedd y byd yn lle gwahanol iawn.

- Cyn y we!
- Cyn y ffôn symudol!
- Cyn PowerPoint
- Cyn cwmp Wal Berlin!
- Chwyddiant uchel a chyfraddau llog uchel
- Dechrau'r sôn am newid hinsawdd/yr haen osôn
- Dim llawer o siopau coffi/y rhan fwyaf yn 'smygu

Mae'r Byd yn Newid yn Gyflym



Diwedd ar y cymhedrol

- “Bydd yr egwyddor hon (diwedd ar y cymhedrol) yn berthnasol i ansawdd eich swydd, eich cyflog, ble rydych yn byw, eich addysg, ac addysg eich plant...**os ydych chi a’ch sgiliau yn ategu ac yn cyfrannu at waith y cyfrifiadur**, mae eich cyflog a’ch rhagolygon o ran y farchnad lafur yn debygol o fod yn ddisglair...” (tudalennau 4/5)
- “...mae melin decstiliau fodern yn cyflogi dyn a chi – y dyn i fwydo’r ci a’r ci i gadw’r dyn draw oddi wrth y peiriannau.” (tudalen 8)
- “Y gallu i **ddefnyddio gwybodaeth dechnegol i ddatrys problemau go iawn** yw’r allwedd...” (tudalen 21)
- “Gallech ei galw’n oes peiriannau athrylith, a’r bobl sy’n gweithio gyda nhw fydd yn codi... byddwn wedi creu dwy genedl – cenedl sy’n hynod lwyddiannus, sy’n gweithio yn y sectorau technolegol-ddeinamig, a **phawb arall.**”

Polisiau gwella (OECD)

Y gorffennol

Y systemau mwyaf effeithiol

Cynnwys myfyrwyr

Rhai myfyrwyr yn dysgu ar lefelau uchel

Pob myfyriwr yn dysgu ar lefelau uchel

Cwricwlwm, cyfarwyddyd ac asesu

**Sgiliau gwybyddol arferol ar gyfer swyddi
gydol oes**

**Dysgu i ddysgu, dulliau cymhleth o
feddwl, dulliau gweithio**

Ansawdd athrawon

**Yn cael eu haddysgu i addysgu cynnwys
penodedig**

Gweithwyr proffesiynol ar lefel uchel

Trefniadaeth gwaith

‘Darniog’, hierarchaidd

**Gwastad, colegol, gwahaniaethol a
gyrfaoedd amrywiol**

Atebolrwydd

I awdurdodau yn bennaf

Hefyd i randdeiliaid a chymheiriaid

Chwe Neges Fawr

- Achos cryf dros newid sylfaenol
- Yn seiliedig ar weledigaeth gyffredinol glir sy'n darbwylo – bod yn glir am yr hyn sy'n bwysig – dylai strwythurau ddilyn ac nid arwain
- Rhaid peidio â gwneud pethau'n fwy cymhleth – yr addysgu sy'n bwysig
- Annog cydlyniaeth – cyfeiriadau clir – cyn lleied â phosibl o drosglwyddo
- Cydbwyso cysoni a chyflymder dysgu
- Dysgu yw prif ddiben asesu ac atebolrwydd

Yr her

- *“Mae’r hyn y mae ein plant a phobl ifanc yn ei ddysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol **yn bwysicach nag erioed** ac eto, ar yr un pryd, mae’r dasg o bennu beth sydd i’w ddysgu **yn fwy ymestynnol nag erioed.**”*



Dull strategol

Er mwyn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau mae'r Adolygiad wedi ceisio pennu'n glir:

- Dyheadau pobl Cymru ar gyfer eu hysgolion
- Yr egwyddorion a ddylai lywio gwaith cynllunio'r cwricwlwm
- Dibenion y cwricwlwm
- Y ffordd orau o drefnu a disgrifio'r cwricwlwm er mwyn bodloni'r dibenion a'r egwyddorion hynny
- Goblygiadau'r cynigion dros newid o safbwynt addysgu a dysgu
- Rôl asesu o safbwynt helpu i gyflawni dibenion y cwricwlwm a phennu i ba raddau y mae'r dibenion yn cael eu cyflawni
- Y goblygiadau o ran capasiti athrawon, systemau atebolrwydd ac ysgogwyr eraill ansawdd addysgol
- Y ffordd orau o weithredu cynigion yr Adolygiad, gan gynnwys yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng penderfyniadau cenedlaethol a lleol.

Egwyddorion Cynllunio'r Cwricwlwm

Dylai'r cwricwlwm fod:

- **yn ddilys:** wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru ac yn gyson â set o ddibenion cytûn a datganedig
- **wedi'i seilio ar dystiolaeth:** yn gwneud defnydd o'r arferion gorau presennol yng Nghymru a thu hwnt ac o ymchwil ddibynadwy
- **yn ymatebol:** yn berthnasol i anghenion heddiw (unigol, lleol a chenedlaethol) ond hefyd yn rhoi i'r holl bobl ifanc yr wybodaeth, y sgiliau a'r anian y bydd arnynt eu hangen i wynebu heriau'r dyfodol fel dysgwyr gydol oes
- **yn gynhwysol:** yn hawdd i bawb ei ddeall, gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel a chael ystyried ei farn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a barn rhieni, gofalwyr a chymdeithas ehangach
- **yn uchelgeisiol:** yn ymgorffori disgwyliadau mawr heb osod terfynau artiffisial ar gyflawniadau a heriau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc

Egwyddorion Cynllunio'r Cwricwlwm

Dylai'r cwricwlwm fod:


- **yn rymusol:** yn datblygu cymwyseddau a fydd yn galluogi pobl ifanc i wynebu heriau'n hyderus yn eu bywydau yn y dyfodol
- **yn unedig:** yn caniatáu parhad a dilyniant gyda chydannau sy'n cyfuno ac yn datblygu o gam i gam
- **yn ddiddorol:** yn hybu mwynhad o ddysgu a boddhad wrth feistroli cynnwys ymestynnol
- **wedi'i seilio ar sybsidaredd:** yn ennyn hyder ym mhawb, gan gymell perchenogaeth briodol a phenderfynu gan y rheini sydd agosaf at y broses addysgu a dysgu
- **yn hawdd ei drin:** yn cydnabod y goblygiadau o ran cael trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol i'w gynnal.

Cwmpas y cwricwlwm

“Dylai’r diffiniad o’r cwricwlwm ysgol yng Nghymru gynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu y mae’r ysgol yn eu cynllunio wrth geisio cyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt.”



Yr adroddiad: Dyfodol Llwyddiannus



> 8 Pennod

Trosolwg
Prosesau a Thystiolaeth
Dibenion
Strwythur
Addysgeg
Asesu
Goblygiadau
Casgliadau ac Argymhellion


> 68 o Argymhellion

Dibenion y cwricwlwm

- Annog pobl i fynegi barn a chefnogi
- Ceisio sicrhau rhagor o eglurder a thryloywder
- Canolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfrif
- Gwarchod rhag ymdrin â phynciau yn ddadansoddol

Dibenion y cwricwlwm

**Dibenion y cwricwlwm
yng Nghymru yw ceisio
sicrhau bod plant a
phobl ifanc yn
datblygu:**



Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:

yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth
honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau

yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau

yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r
Saesneg

yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt

yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau

yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol

yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i
dadansoddi

yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd:

yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion

yn meddwl yn creadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau

yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt

yn mentro'n bwyllog

yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol

yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau

yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu
bywyd a'u gwaith

Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:

yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned

ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru
a'r byd

Yn unigolion iach, hyderus sydd:

â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol
yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu
bywyd pob dydd
yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac
iach
yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
yn wynebu heriau ac yn eu trechu
â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y
gallant

ac yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau
fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Dylai strwythur y cwricwlwm:

- adlewyrchu'r **dibenion cwricwlwm** yn uniongyrchol a'u hyrwyddo
- ymgorffori'r **hawl** sydd gan bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu difrifol, dwys neu luosog, i gael addysg eang sy'n uchel ei hansawdd ac yn briodol o ran ei chydbwysedd drwy gydol eu cyfnod o addysg statudol
- hybu **dilyniant** yn y dysgu gan blant a phobl ifanc
- hyrwyddo dysgu **dwfn** a chynnig **her** briodol mewn ffyrdd a fydd yn codi **safonau cyflawni'n** gyffredinol
- hybu **cydlyniant** a chymell plant a phobl ifanc i greu **cysylltiadau** rhwng gwahanol agweddau ar eu dysgu

Dylai strwythur y cwricwlwm:

- galluogi plant a phobl ifanc i **gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn cyd-destunau anghyfarwydd**
- hyrwyddo sylw parhaus i'r broses o ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau o ran **llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol**
- sicrhau pwyslais priodol ar **y Gymraeg a'i diwylliant**
- hybu addysgu a dysgu **symbylol a deniadol**
- bod mor **syml a hawdd ei ddeall** â phosibl
- cael ei ddeall gan rieni, gofalwyr ac athrawon ac ennyn **hyder** ynddynt.

Trefnu dysgu

“Os yw cwricwlwm wedi’i ddiffinio’n bennaf ar sail pynciau sydd ar wahân i’w gilydd, mae’n hawdd ei droi’n amserlen sydd weithau’n gwthio dysgu trawsgwricwlaidd pwysig i’r cyrion. Yn ogystal â hyn, roedd y broses o gynllunio pynciau ar wahân, ynghyd â’r dehongliad cul o’r ffordd orau o feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn arwain yn anfwriadol weithiau at gynnig set o brofiadau cyfyng ac ailadroddus.”



Meysydd Dysgu a Phrofiad



yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm.



yn fewnol gydlynol ac yn defnyddio ffyrdd neilltuol o feddwl a



chynnwys craidd penodol o wybodaeth ddisgyblaethol a chyfryngol.



Gyda'i gilydd, dylent ddiffinio ehangder y cwricwlwm.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

“Dylai dysgu gan blant a phobl ifanc gael ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm drwy dri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a ddylai fod yn gyfrifoldeb i’r holl athrawon: llythrennedd; rhifedd; a chymhwysedd digidol.”

“Dylai fframwaith cymhwysedd digidol, ynghyd â dogfen ‘Ar Drywydd Dysgu Cymhwysedd Digidol’, gael eu datblygu a’u cynnwys fel Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd.”



Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

LLYTHRENNEDD
Trawsgwricwlaidd

RHIFEDD
Trawsgwricwlaidd

CYMHWYSEDD
DIGIDOL
Trawsgwricwlaidd

Mae nodweddion dilyniant yn cynnwys

- Capasiti i bwyso a mesur syniadau a materion mewn rhagor o fanylder
- Llwyddiant wrth fynd i'r afael â phroblemau mwy cymhleth a gallu deall cysyniadau mwy haniaethol
- Gwella perfformiad
- Creu sylfaen gadarn o ramadeg a sillafu sylfaenol a sicrhau dealltwriaeth gadarn o fondiau rhif.

Dilyniant

- › Continwwm dysgu o 3 i 16, heb gyfnodau a chyfnodau allweddol.
- › Camau Cynnydd ar bum pwynt yn y continwwm dysgu.
- › Deilliannau cyflawniad ar gyfer pob Cam Cynnydd sy'n cyfrannu at bob diben.



Mae Argymhellion ynghylch Deilliannau Cyflawniad

- A ddatblygwyd ar gyfer pob Cam Cynnydd ymhob Maes Dysgu a Phrofiad yn.
- Cyfrannu'n glir at y pedwar diben cwricwlwm, a dylent sicrhau pwyslais ar gyflawni yn yr ystyr ehangach, yn hytrach na dim ond mesuriadau cyrhaeddiad mwy cyfyng. Dylent gynnwys cyfeiriadau at brofiadau perthnasol.
- Addisgrifir o safbwynt y dysgwr, gan ddefnyddio termau fel 'Rydw i wedi' i ddisgrifio profiadau a 'Rydw i'n gallu' i ddisgrifio deilliannau
- Dylai pob plentyn a pherson ifanc gyflawni cynnydd ar hyd yr un continwwm.


Y Gymraeg

Ymysg yr argymhellion allweddol mae'r canlynol.

- Dylai'r Gymraeg fod yn statudol hyd 16 oed.
- Pwyslais ar gyfathrebu mewn sefyllfaoedd go iawn.
- Dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg fod yn ganolfannau er mwyn cefnogi'r iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Dylai cymwysterau ar gyfer dysgwyr 16 oed ganolbwyntio ar siarad, gwrando a defnyddio'r hyn a ddysgir yn y gweithle.

Addysgeg

“Yr unig ffordd o wireddu uchelgeisiau’r Adolygiad ar gyfer plant a phobl ifanc yw drwy arfer barn a sgiliau proffesiynol gan athrawon ac ymarferwyr addysg eraill wrth ddewis dulliau addysgu priodol.”



Asesu

Argymhellir y canlynol mewn perthynas ag asesu.

- Symleiddio gweithdrefnau asesu.
- Rhagor o bwyslais ar asesu er mwyn cefnogi dysgu.

Dylai trefniadau asesu:

- Sicrhau bod asesiadau'n cyd-fynd â'r dibenion dysgu: asesu beth sy'n cyfrif
- Bod yn glir am y rhesymau dros asesu a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer defnydd bwriedig canlyniadau asesiadau
- Hybu'r defnydd o wahanol dechnegau sy'n briodol i'w diben
- Ennyn diddordeb myfyrwyr yn eu hasesiadau eu hunain
- Sicrhau bod adroddiadau ar gyfer rhieni a gofalwyr yn canolbwyntio ar gynnydd
- Bod mor ysgafn â phosibl ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen
- Defnyddio tystiolaeth o asesiadau mewn modd systematig ac ar y cyd â thystiolaeth arall fel sail i hunanwerthuso gan yr ysgol
- Mynd i'r afael â goblygiadau ymarfer asesu da o safbwynt capasiti athrawon
- Llunio fframwaith cydlynol a chymeradwy ar gyfer asesu a gwerthuso, gyda gweledigaeth glir a strategaeth sy'n seiliedig ar yr uchod.

Pa fath o gwricwlwm?

- Ffordd newydd o feddwl.
- Mwy o gyfle i gynllunio a darparu cwricwlwm sy'n datblygu fesul cam o 3 i 16 oed.
- Cyfleoedd newydd i gynnig profiadau dysgu diddorol ac ymestynnol.
- Darparu profiad addysgol dyfnach a mwy boddhaol a pherthnasol.


Cyflawni'r newid

- **Nid oes dull unigol na dull gorau** o ddiwygio addysg mewn modd effeithiol. Mae gwaith ymchwil yn creu darlun cymharol ddigyfaddawd o brofiadau o ddiwygio addysg mewn gwahanol leoliadau.
- **Mae strategaethau newid yn benodol iawn i ddiwylliannau a chyd-destunau arbennig** ac mae risg y gallai mater cymhleth iawn fel diwygio addysg droi'n atebion rhy syml nad ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigonol i natur a chymhlethdod addysg. Efallai na fyddai rhywbeth sy'n gweithio mewn un gwlad yn briodol mewn gwledydd eraill.
- Wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad mae angen **dysgu gwersi** o gyfyngiadau diwygiadau blaenorol a mabwysiadu strategaeth newid sy'n cyd-fynd orau â natur Cymru a'i diwylliant addysgol.

Egwyddorion ar gyfer gweithredu

- Yn cael ei arwain gan dystiolaeth ac yn seiliedig ar sybsidaredd.
- Yn uchelgeisiol ac yn gynhwysol.
- Yn bosibl i'w rheoli, gyda brwdfrydedd, proffesiynoldeb a chyflymder.
- Yn unedig.

Sybsidiaredd mewn ysgolion a lleoliadau eraill



Cyflawni'r newid

Her Arweinyddiaeth

*Datblygu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer
wynebu dyfodol ansicr iawn*

A

sicrhau camau i gyflawni hyn



Beth fydd canlyniad hyn?

“Gyda’i gilydd, mae argymhellion yr Adolygiad yn ceisio darparu cwricwlwm a threfniadau asesu a fydd yn cwrdd ag anghenion a dyheadau pawb sydd â buddiant mewn addysg yng Nghymru. Ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgol, byddant yn gosod sail symlach a mwy cydlynol ar gyfer arfer eu sgiliau proffesiynol. Ar gyfer plant a phobl ifanc, maent yn ceisio creu profiad addysgol mwy symbylol ac ymestynnol a fydd yn eu helpu i ffynnu a llwyddo mewn byd sy’n gyffrous ond yn gofyn mwy ganddynt. Ar gyfer cyflogwyr, bydd yn helpu i ddarparu gweithwyr sydd wedi’u haddysgu’n dda ac sydd â’r sgiliau ‘caled’ a ‘meddal’ sy’n hanfodol yn y gweithle modern. A bydd rhieni a gofalwyr yn gallu cymryd rhan yn fwy uniongyrchol yn y dysgu gan eu plant, a chael gwybodaeth glir am eu cynnydd ar sail dibenion cwricwlwm sy’n hawdd eu deall.”



*“Yn olaf, er mwyn gweithredu’r cynigion, bydd angen **arweinyddiaeth ragorol ac ymrwymedig** ar bob lefel yn y system addysg. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i sefydlu’r math o ddiwylliant cydweithredol sy’n nodweddiadol o systemau addysg sy’n ymgynhyrchu at ragoriaeth. Mae’r argymhellion yn yr Adolygiad hwn wedi’u gwneud er mwyn ategu’r ymrwymiad hwnnw a chreu **dyfodol llwyddiannus a chyffrous i bobl ifanc Cymru.**”*





Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Dr David Hyerle



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



Meithrin disgyblion meddylgar mewn ysgolion meddylgar

o gwmpas y byd ac yng Nghymru





Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Mae Thinking Schools International yn grŵp o addysgwyr o bedwar ban byd sy'n cynyddu'n gyson mewn aelodaeth. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu, gweithredu, dogfennu a rhannu ffyrdd o wella galluedd meddwl pob myfyriwr, athro, athrawes a gweinyddwr mewn ffyrdd uniongyrchol.





Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Rydym ni'n wynebau problemau
di-ri heddiw – problemau na ellir
eu datrys drwy ddal ati i feddwl yn
yr un ffordd.

Meddyliwch yn wahanol.






Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Meddyliwch yn wahanol.

Meddyliwch am yr holl broblemau
mae'n myfyrwyr ni yn eu hwynebu
heddiw ...



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



SCHOOL
IMPROVEMENT
NETWORK






Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government





ORG CHIC THIGHS/BLS SKINLESS
MBA Brand Smart Chicken

Product of USA, Not for Sale in France, Germany, Greece, Italy, Netherlands, Spain, Sweden, Switzerland, UK, and other EU countries

PROD BY 01/25	SELL BY 02/26
NET WT 1.41 lb	UNIT PRICE \$6.99/lb
RETAIL PRICE \$9.86	

2 40338 40986 5

SAFE HANDLING INSTRUCTIONS
 THOSE WHOSE NAMES ARE LISTED ON THE LABEL ARE THE ONLY ONES WHOSE NAMES ARE LISTED ON THE LABEL. IF YOU DO NOT SEE YOUR NAME, DO NOT EAT THE MEAT. IF YOU DO EAT THE MEAT, YOU MAY BECOME SICK. IF YOU DO NOT EAT THE MEAT, YOU MAY BECOME SICK. IF YOU DO NOT EAT THE MEAT, YOU MAY BECOME SICK. IF YOU DO NOT EAT THE MEAT, YOU MAY BECOME SICK.

65 S. PARK ST. HANOVER, NH

AN ORGANIC
ORGANIC BONELESS SKINLESS
CHICKEN THIGHS

Nutrition Facts

Serving Size 4 thighs (112g)	Total Fat 2g	Total Fat 2g	Total Fat 2g
Calories 100	Sodium 0g	Sodium 0g	Sodium 0g
Total Protein 20g	Total Protein 20g	Total Protein 20g	Total Protein 20g
Total Fat 2g	Total Fat 2g	Total Fat 2g	Total Fat 2g
Sodium 0g	Sodium 0g	Sodium 0g	Sodium 0g
Total Protein 20g	Total Protein 20g	Total Protein 20g	Total Protein 20g






Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government





Visit 5: August 29, 1929
Temperature: 99.1

He picks up the block from the
table, and holds it with thumb
opposition.

He sits momentarily without support
Begins to play with paper.

Smiles at himself in the mirror
and reaches with his hand.

Pushes himself up strongly, resting
on his head and feet, with
his back arched up.





Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Robert A. Hyerle
Awst 29, 1929
5 mis oed

YMWELIAD #5

Mae o'n codi blociau.
Yn gwthio'i hun i fyny yn egniïol ac
yn gorffwys ar ei ddwylo.
Yn dechrau chwarae gyda phapur
Yn gwenu arno'i hun yn y drych.
Mae o wastad yn estyn am
deganau sydd y tu allan i'w
gyrraedd

YMWELIAD #6

Mae o'n codi blociau'n ddeheuig
iawn.



RECORD OF VISITS TO THE INSTITUTE OF CHILD WELFARE

Visit 5: August 29, 1929
Temperature: 99.1

He picks up the block from the table, and holds it with thumb opposition.

He sits momentarily without support. Begins to play with paper.

Smiles at himself in the mirror and reaches with his hand.

Pushes himself up strongly, resting on his head and feet, with his back arched up.



7 Months: October 30, 1929
Temperature: 100.

He reaches persistently for toys just out of reach. Picks up the block deftly and directly, one, in each hand.

Picks up the cup by the handle. Manipulates the ring with sustained inspection.

Is interested in the details of the bell. Plays exploitatively with paper and string. Reaches with one hand, and rotates wrist. Looks for fallen toys. Scoops the pellet.



Oakland, California 1982 y cynllun THINK!






Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Y Weledigaeth

Dysgu I Feddwl

Dysgu YN SEILIEDIG AR
Feddwl

Dysgu YNGLŶN Â Meddwl





Darpariaethau

Ffyrdd o holi

Prosesau gwybyddol

Creadigrwydd

Dulliau dysgu



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Mae hyn oherwydd athrawon sy'n ...

1. Annog eu disgyblion i ddefnyddio dirnadaeth wrth fynd i'r afael â chynnwys...
2. Yn datblygu ffordd o feddwl ... a
3. Pwysleisio ffyrdd o ddatrys problemau a strategaethau mae arnyn nhw eisiau i fyfyrwyr eu dysgu.

John Hattie/Dysgu gweledol



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

3 Egwyddorion meithrin disgyblion meddylgar mewn Ysgolion Meddylgar

Egwyddor 1: POB DYSGWR
Pob dysgwr yn medru
meddwl mewn ffyrdd
gwahanol yn gwbl naturiol.

Egwyddor 2: MODELAU
DISGYBL GANOLOG
Er mwyn gwella prosesau
meddwl A'R dull o ddysgu am
gynnwys penodol, mae'n
rhaid i fyfyrwyr allu ymwneud
yn rhwydd â modelau
ymarferol.

Egwyddor 3: TRIN TESTUN
A MEDDWL YN EGLUR
Mae hi'n hanfodol creu
cyswllt uniongyrchol rhwng
prosesau meddwl disgyblion
a'r hyn rydym ni'n ei ddysgu.



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



Egwyddor 2: Modelau Disgybl Ganolog



Trosglwyddadwy



Modd eu dysgu

Sylfaenol

Integredig



Datblygiadol



Greddfol





Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Egwyddor 2: Modelau Disgybl Ganolog

Mapiau meddwl


**Model: Teclynnau gweledol
ar gyfer meddwl**


Meddwl Agored

Model: Agwedd feddylgar

Gweithredu ystyriol

**Model: Cwestiynu ar gyfer
ymholi**





Visual Tools



**Used
consistently by
all teachers and
learners**




**Based on
fundamental
thought
processes**




**Used across the
curriculum**




Thinking Points® teclynnau gweledol ar gyfer meddwl




Safbwyntiau




Pwyntiau Cymeriad



Pwyntiau Newid



Pwyntiau Grŵp




Pwyntiau
Rhannau




Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence




Open Minds® dispositions for mindfulness



Reflective Action Process® cwestiynu ar gyfer ymholi





S. Gross

"Actually, I got some pretty good ideas when I was in the box."



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Her: PROSESAU NEWID

1af

atgyfnerthu a gwella

2nd


mynd ati i newid pethau

3rd

gwneud aelodau'n rhan o'r trawsffurfio




Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Dechrau wrth eich traed!

Deilliannau



Bu i sgiliau cyrhaeddiad gynyddu ym mhob ysgol oni bai am un... yn seiliedig ar astudiaeth gan Brifysgol Exeter
o 60 ysgol Wedi eu hachredu fel
Ysgolion Meddylgar

Ar gyfer ymchwil manwl ac astudiaethau achos:
“Pathways to Thinking Schools”

Cyhoeddiadau Sage
2014
Hyerle and Alper golygyddion

I think






Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Esblygiad yn ein diffiniad o
ddynoliaeth a deallusrwydd yr hil
ddynol...

O
Darwin
I Dweck...



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



iTHINK Malaysia

ar y cyd â Thinking Schools International







Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Egwyl Yr Arena



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

GwE 2015

Cynhadledd Genedlaethol

Tuag at Ragoriaeth

26 Mawrth 2015



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cinio

Yr Arena



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

GwE 2015

Cynhadledd Genedlaethol

Tuag at Ragoriaeth

26ain Mawrth 2015



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Dr Brett Pugh



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

PISA a'i bwysigrwydd i Gymru

Cynhadledd Addysg Gogledd Cymru

Beth yw PISA?

- Mae PISA yn asesu gwybodaeth a sgiliau disgyblion pymtheg oed ar eu cymhwysedd i ddelio â heriau mewn bywyd go iawn sy'n cynnwys darllen, mathemateg a gwyddoniaeth
- Mae'r nod hwn yn gwahaniaethu PISA oddi wrth dulliau eraill o asesu disgyblion sy'n mesur i ba raddau maent wedi meistrolï pynciau'r cwricwlwm
- Prif ffocws cylch 2012 oedd mathemateg, gyda gwyddoniaeth a darllen yn is-feysydd

Pam bod PISA yn bwysig?

X Oherwydd ei fod yn gwneud inni edrych yn dda mewn tablau cynghair

X Oherwydd ei fod yn ffordd o ddilorni'r system

OND oherwydd ei fod yn arwydd o ba mor barod yw ein pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolion

Allwn ni addysgu'n unol â phrawf PISA?

- Torri'n rhydd oddi wrth y gorffennol: ni ellir ei ragweld
- Angen sgiliau manwl
- Angen i'r sgiliau hynny gael eu trin

Bydd y cyfan o'r uchod yn cymryd amser i'w gweithredu

Rydym ar drothwy

- Bydd gwelliant gwirioneddol yn cymryd amser i sefydlu
- Ond rhaid inni weithio ar frys


Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae Cymru wedi cwmpo'n sylweddol mewn
Mathemateg a Gwyddoniaeth er 2006

Maes	2006	2009	2012	Newid er 06	Newid er 09
Mathemateg	484	472	468	-16	-4
Gwyddoniaeth	505	496	491	-14	-5
Darllen	481	476	480	-1	4


Mathemateg

Canran y myfyrwyr ar bob lefel fedrusrwydd ar y raddfa fathemateg PISA 2012




Mathemateg

Canran y myfyrwyr ar bob lefel fedrusrwydd ar y raddfa fathemateg PISA 2006, 2009, 2012




Gwyddoniaeth

Canran y myfyrwyr ar bob lefel fedrusrwydd ar y raddfa wyddoniaeth PISA 2012



Gwyddoniaeth

Canran y myfyrwyr ar bob lefel fedrusrwydd ar y raddfa wyddoniaeth PISA 2006, 2009, 2012



Cymwys am Oes, ein cynllun strategol

Y Weledigaeth

Bydd dysgwyr yng Nghymru yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli mewn cymuned addysgol sy'n cydweithio ac sy'n dyheu am ragoriaeth, gan werthfawrogi cyflawniadau pob plentyn a pherson ifanc

Ein dull gweithredu

- Ein Nod – rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu
- Ein Hamcanion:
 - Gweithlu proffesiynol ardderchog sydd ag addysgeg gadarn yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio
 - Cwricwlwm sy'n ddiddorol ac yn atyniadol i bobl ifanc ac sy'n meithrin ynddynt y gallu i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau'n annibynnol
 - Cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac sy'n gweithredu fel pasbort credadwy i ddysgu a chyflogaeth i'r dyfodol
 - Arweinwyr addysg sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyd gefnogaeth a her er mwyn codi safonau ym mhob ysgol

Amcan strategol 2:

Cwricwlwm sy'n ddiddorol ac yn atyniadol i bobl ifanc ac sy'n meithrin ynddynt y gallu i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau'n annibynnol

- Ystyried argymhellion adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson i weithredu Cwricwlwm Newydd i Gymru

Adolygiad Donaldson

Pedwar o brif ddibenion y cwricwlwm:

- Bydd ein holl blant:
 - yn ddysgwyr uchelgeisiol
 - yn fentrus a chreadigol
 - yn foesegol a gwybodus
 - yn iach a hyderus

Adolygiad Donaldson

Cydrannau allweddol

- 3-16
- chwech o Feysydd Dysgu a Phrofiad
- tri o sgiliau trawsbynciol
- asesu wedi'i gyplysu â chynnydd AR GYFER dysgu
- cymwyseddau eang

Amcan strategol 3:

Cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac sy'n gweithredu fel pasbort credadwy i ddysgu a chyflogaeth i'r dyfodol

- Cyflwyno TGAU newydd ar gyfer Cymru yn unig mewn Cymraeg a Saesneg iaith, mathemateg-rhifedd a mathemateg i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2015 ymlaen
- Cefnogaeth ar gyfer PISA

Amcan strategol 1 a 4: Adolygiad Furlong a'r Fargen Newydd

- Disgrifio sut bydd '*Cymwys am Oes*' yn effeithio ar y gweithlu ac yn newid y disgwyliadau o safbwynt addysgeg, arweinyddiaeth a datblygu ymarfer o'r hyfforddiant cychwynnol i athrawon ymlaen
- Gosod amserlen ar gyfer newid er mwyn galluogi ysgolion ac ymarferwyr i nodi blaenoriaethau

Diolch yn fawr



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cwestiynau ac Atebion



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Diolch yn fawr

Taith gartref ddiogel



www.gwe.org.uk